Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach
# Roseland Road
# Waunarlwydd
# Abertawe
# SA5 4ST

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2015**

## Cyd-destun

Lleolir ysgol Gymraeg Y Login Fach ar gyrion pentref Waunarlwydd, Sir Abertawe.

Mae 254 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn wyth dosbarth sy'n cynnwys un dosbarth oed cymysg ar gyfer disgyblion y dosbarth derbyn a'r dosbarth meithrin rhan-amser.

Mae tua 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Daw tua 6% o gartrefi ble siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae oddeutu 20% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na chyfartaledd Cymru.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2006 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai, 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach yn 2014-2015 yw £3,141. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £7,839 a'r lleiafswm yw £2,665. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach yn y 64ain safle o'r 80 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryder
- Bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen
- Bod gan yr ysgol weithdrefn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion
- Bod yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac ymroddiad cryf i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl
- Bod y corff llywodraethol yn ymroddedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol
- Bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n manteisio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol
- Bod gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n arwain at wella safonau a lles disgyblion
- Bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol ac yn gwneud defnydd da o arbenigedd y staff i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- Bod yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu

## Argymhellion

A1 Cynyddu canran y disgyblion sy’n cyrraedd lefelau sy’n uwch na’r disgwyl

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ehangu gwybodaeth disgyblion am faterion sy’n ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang

A4 Sicrhau bod safonau'r addysgu yn gyson dda neu well ar draws yr ysgol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion lefel isel o allu yn y medrau sylfaenol ar fynediad i'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn defnyddio eu medrau yn effeithiol ac yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn y gwersi. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd, yn aros ar dasgau am gyfnodau priodol ac yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar oedolion a'u chyfoedion. Maent yn awyddus i gyfrannu ar lafar mewn trafodaethau ac wrth ymateb i gwestiynau penodol. Prin y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng yn aml gan ddisgyblion ieuengaf yn y Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu sgwrsio'n glir gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn naturiol. Maent yn trafod profiadau a digwyddiadau yn fedrus ac yn cynnig sylwadau ac yn gofyn cwestiynau priodol. Wrth i'r disgyblion symud drwy gyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn meddu ar eirfa eang ac yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. Gallant gywain gwybodaeth am bynciau penodol o fwy nag un ffynhonnell yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd mewn brawddegau llawn, gan ddefnyddio atalnodi'n gynyddol gywir. Maent yn amrywio strwythurau brawddeg yn llwyddiannus er mwyn creu pwyslais ac effaith wrth greu darnau estynedig o ysgrifennu, er enghraifft cofiant T. Llew Jones. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio llawysgrifen glir ac yn cyflwyno gwaith yn daclus. Serch hynny, nid yw medrau llythrennedd y disgyblion wedi datblygu'n llawn ar draws holl feysydd eraill y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion luosi rhifau a degolion yn gywir ac amcangyfrif hyd a thebygolrwydd yn synhwyrol. Mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mesur a thrin data yn effeithiol. Er enghraifft, mesur faint o egni mae gwahanol offer trydanol yn ei ddefnyddio ac yna cyflwyno'r wybodaeth gan ddefnyddio graffiau bar yn gywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella ac maent bellach yn cymharu'n ffafriol gyda disgyblion eraill. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer. Serch hynny, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd ddiwethaf wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn llythrennedd. Mae perfformiad y disgyblion mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf.

Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch mewn llythrennedd wedi aros yn gyson yn yr 50% is. Mewn datblygiad mathemategol, mae perfformiad y disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch mewn Cymraeg a Saesneg. Mae perfformiad y disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gogwyddo rhwng y 25% isaf a'r 50% is.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch yn y pedwar pwnc craidd wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Mae perfformiad mewn Cymraeg a mathemateg wedi gogwyddo rhwng yr 50% isaf a'r 50% uchaf. Mae perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gwyddant at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryder. Mae safon ymddygiad bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda ac maent yn gwrtais at ei gilydd ac oedolion. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac ar y cyd ag eraill, gan ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn gyson.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod i ysgwyddo cyfrifoldebau ac yn cyflawni eu rolau'n ddiwyd. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon chwaraeon yn cyfrannu'n fuddiol at les disgyblion y Cyfnod Sylfaen trwy drefnu gemau ar eu cyfer yn ystod clwb brecwast ac amser egwyl.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor yn gofyn am farn eu cyfoedion yn rheolaidd. Maent yn helpu i wneud penderfyniadau pwrpasol am yr ardal allanol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Cyfartaledd presenoldeb yr ysgol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yw 95.4%. Mae hyn wedi gwella dros y blynyddoedd blaenorol ac yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb bron pob disgybl yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae'r themâu trawsgwricwlaidd yn gyffrous, yn ysbrydoli'r disgyblion yn effeithiol ac yn cynnig profiadau gwerthfawr iddynt.

Mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymhorol ac wythnosol yn briodol. Mae ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyson. Serch hynny, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd mewn meysydd eraill yn llai effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn effeithiol ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Trwy ymweld â safleoedd hanesyddol yn lleol, fel amgueddfa forol Abertawe, a chymryd rhan mewn eisteddfodau, caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn datblygu'n dda ac mae'r ysgol yn ei hyrwyddo'n effeithiol drwy waith y pwyllgor eco a themâu'r cwricwlwm. Mae aelodau'r pwyllgor wedi cynnal sioe ffasiwn ailgylchu i hybu'r elfen hon. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer ehangu gwybodaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang wedi datblygu'n llawn.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y disgyblion a rhan fwyaf y staff.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae'r addysgu'n dda neu'n well. Yn y dosbarthiadau hyn, mae brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Mae disgwyliadau uchel ganddynt a cheir nodau dysgu pendant i'r gwersi. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sydd â lefel briodol o her i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion ac maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl disgyblion yn fedrus.

Fodd bynnag, mae safon yr addysgu yn anghyson ar draws yr ysgol. Lle mae'r addysgu'n lleiaf llwyddiannus, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni, ac nid ydynt yn addasu'r dysgu yn ddigon effeithiol i herio pob disgybl ar lefel briodol. Nid yw'r athrawon yn fodel iaith da i sicrhau datblygiad effeithiol cyson disgyblion yn yr iaith Gymraeg. Nid ydynt yn rheoli ymddygiad yn bwrpasol ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y eu dysgu. Mae cyflymder mwyafrif y gwersi yn rhy araf.

Mae gan yr ysgol weithdrefn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon i osod targedau ar gyfer gwella a sicrhau eu bod yn nodi unrhyw dangyflawniad yn gynnar. Mae'r disgyblion yn asesu eu dysgu eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac ar y cyfan, mae'r sylwadau'n helpu disgyblion i wella eu gwaith.

Mae’r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth briodol iddynt ar gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae'n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae darpariaeth addas ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol a chaiff datblygiad ysbrydol sylw priodol mewn sesiynau addoli ar y cyd. Mae ymweliadau i gapeli lleol a chynyrchiadau theatr yn cyfoethogi profiadau diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae’r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da drwy strategaethau cadarn ar hawliau a chyfrifoldebau disgyblion.

Mae’r ysgol yn ymgysylltu’n dda ag ystod addas o asiantaethau allanol er mwyn cynorthwyo disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio’n agos â seicolegwyr addysg, ac ymddiriedolaeth teuluoedd a phlant, i gynorthwyo disgyblion a’u teuluoedd bregus yn effeithiol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau â ffocws clir ac mae disgyblion a rhieni yn cyfrannu atynt yn effeithiol. Mae athrawon yn gwerthuso’r rhain yn rheolaidd a chânt eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn gyda rhieni. Mae’r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth llythrennedd a rhifedd manwl ar gyfer grwpiau ffocws ym mhob dosbarth. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sy’n ymgymryd â’r rhaglenni hyn yn gwneud cynnydd da. Mae’r polisi drws agored a’r sesiynau galw heibio wythnosol ar gyfer rhieni i drafod pryderon am eu plant yn elfen gref o’r ddarpariaeth.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy’r holl ysgol. Mae pob unigolyn yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu mewn awyrgylch hapus. Mae yna naws groesawgar a chynnes lle mae’r oedolion a’r disgyblion yn ymdrin â’i gilydd gyda pharch a gofal. Mae’r holl staff yn sicrhau bod disgyblion yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da i gynnal dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys offer cyfrifiadurol sy’n cael ei ddefnyddio’n bwrpasol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi’r dysgu a’r addysgu. Mae staff a disgyblion yn gwneud y defnydd gorau posibl o adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol. Mae’r neuadd yn adnodd gwerthfawr sy’n cael ei ddefnyddio’n effeithiol gan athrawon ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau cymunedol eraill. Mae’r arddangosfeydd lliwgar a symbylus mewn dosbarthiadau ac ar goridorau yn cefnogi’r dysgu’n dda. Serch hynny, prin yw cyfraniad y disgyblion i’r arddangosfeydd hyn. Mae’r amgylchedd dysgu awyr agored yn cyfrannu’n dda at ddatblygu medrau corfforol a chymdeithasol yr holl ddisgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac ymroddiad cryf i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl. Mae ansawdd yr arweiniad a gynigir wrth ledaenu'r weledigaeth hon yn sicrhau cyfeiriad clir a phwrpasol i'r ysgol.

Yn y cyfnod byr ers penodi'r dirprwy a sefydlu uwch dîm rheoli newydd, mae yna ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus trwy gydweithio effeithiol. Mae hyn wedi arwain at feithrin gwaith tîm llwyddiannus gyda'r holl staff. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar brofiadau dysgu dychmygus sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad.
Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn effeithiol i drafod cynllunio, a chynnydd yn y blaenoriaethau datblygu yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r defnydd o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio'r medrau ar draws y cwricwlwm yn dechrau cael effaith gadarnhaol, yn enwedig mewn rhifedd. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol. Mae'r aelodau yn meddu ar wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd i'w datblygu. Mae eu hymweliadau cyson â'r ysgol yn gymorth i roi cefnogaeth a chyfeiriad strategol, ac yn eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol at y broses hunanarfarnu. Mae ganddynt y wybodaeth briodol er mwyn cefnogi ac maent yn dechrau herio'r ysgol yn bwrpasol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys dadansoddi data trwyadl, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r pennaeth yn cynnwys safbwynt rhieni, disgyblion a llywodraethwyr yn rheolaidd fel rhan o'r weithdrefn. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu crynodol yn rhoi darlun eglur o effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a lles y disgyblion. Mae'n adroddiad gonest ac yn dystiolaeth bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r weithdrefn hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir i'w cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn fanwl, ac yn cynnwys crynodeb o'r data perthnasol, amserlen, trefniadau monitro, cyfrifoldebau staff a chostau. Mae'r camau gweithredu eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safonau gwaith bechgyn sy'n tangyflawni ac ar safon ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n arwain at wella safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni. Mae staff yn hysbysu rhieni'n dda am faterion cwricwlaidd, yn enwedig am y dulliau cyfredol o addysgu darllen a rhifedd. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plentyn yn effeithiol. Maent hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd at weithgareddau codi arian at brynu adnoddau a chyfarpar i'r ysgol, er enghraifft offer technoleg gwybodaeth.

Mae cyswllt llewyrchus yn bodoli gydag ysgolion cyfagos sy'n annog cydweithio pwrpasol i wella safon gwaith disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â hybu datblygiad proffesiynol staff.

Mae partneriaeth gadarn hefyd yn bodoli gyda'r gymuned leol. Mae cyfraniad disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, fel yr 'Wythnos Dacluso', ynghyd â chyfleoedd i drafod gyda'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder at eu hardal leol. Mae'r cyfleoedd i ymweld â chartref yr henoed a chynnal gwasanaethau amrywiol yn y capeli hefyd yn darparu profiadau gwerthfawr.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r unedau cyn-ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau pontio llwyddiannus ac ymweliadau pwrpasol gan aelodau o staff yn sicrhau trosglwyddo esmwyth ar ddiwedd eu gyrfa yn yr ysgol hon. Mae'r cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch, i gyd-safoni a chymedroli, yn sicrhau dilysrwydd lefelau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Rhoddir cefnogaeth effeithiol i'r athrawon gan gymorthyddion dosbarth. Maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i safonau cyrhaeddiad a lles y disgyblion.

Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli'n dda. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, caiff hyfforddiant ei gynllunio'n ofalus mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref. Mae staff yn datblygu eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion eraill o fewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae'r cydweithio llwyddiannus i ddatblygu strategaethau o fewn y clwstwr, fel tasgau cyfoethog rhifedd a chodi safonau llythrennedd bechgyn, yn enghreifftiau da o hyn.

Mae trefniadau cyllidol trylwyr a gwariant effeithiol wedi'u cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a blaenoriaethau'r ysgol.  Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn effeithiol.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r grant amddifadedd disgyblion i wella ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ac ansawdd y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702229 - YSGOL GYMRAEG Y LOGIN FACH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 254 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 26 | 30 | 28 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.8 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 30 | 28 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.5 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.5 | 26.7 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 30 | 28 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.6 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.5 | 40.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 30 | 28 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.9 | 43.3 | 60.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702229 - YSGOL GYMRAEG Y LOGIN FACH**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 254 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.1 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 24 | 23 | 28 | 28 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 79.2 | 87.0 | 89.3 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 23 | 28 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 91.3 | 92.9 | 82.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 26.1 | 42.9 | 35.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 23 | 28 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 91.3 | 85.7 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 26.1 | 25.0 | 32.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 23 | 28 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 87.0 | 89.3 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 34.8 | 42.9 | 35.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 23 | 28 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 91.3 | 89.3 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.8 | 34.8 | 42.9 | 35.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 102<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 102 | 100<br>98%<br>92% | 2<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 105 | 103<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 104 | 100<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 105 | 103<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 102 | 99<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 105 | 103<br>98%<br>99% | 2<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 105 | 101<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 103 | 101<br>98%<br>91% | 2<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 105 | 103<br>98%<br>95% | 2<br>2%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 94 | 58<br>62%<br>77% | 36<br>38%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 103 | 93<br>90%<br>84% | 10<br>10%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 21 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 68% | 29% | 3% | 0% | | |
| (benchmark) | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 21 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 29% | 0% | 0% | | |
| (benchmark) | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 20 | 9 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 65% | 29% | 3% | 0% | | |
| (benchmark) | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 18 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| (benchmark) | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 31 | 21 | 7 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 68% | 23% | 3% | 0% | | |
| (benchmark) | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 19 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 61% | 32% | 0% | 0% | | |
| (benchmark) | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 31 | 20 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 29% | 0% | 0% | | |
| (benchmark) | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 31 | 17 | 10 | 1 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 55% | 32% | 3% | 0% | | |
| (benchmark) | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 18 | 10 | 1 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 32% | 3% | 3% | | |
| (benchmark) | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 31 | 17 | 10 | 2 | 1 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 32% | 6% | 3% | | |
| (benchmark) | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 20 | 9 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 65% | 29% | 3% | 0% | | |
| (benchmark) | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 25 | 10 | 11 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 40% | 44% | 4% | 0% | | |
| (benchmark) | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 15 | 11 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 37% | 10% | 3% | | |
| (benchmark) | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 31 | 19 | 8 | 1 | 2 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 61% | 26% | 3% | 6% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 14 | 12 | 0 | 1 | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 0% | 3% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 31 | 17 | 11 | 0 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 28 | 12 | 5 | 1 | 0 | 10 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 18% | 4% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 15 | 13 | 0 | 1 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 48% | 42% | 0% | 3% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 31 | 18 | 10 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 58% | 32% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Dylan Wyn Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Undeg Evans | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.